**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Christine Chapman AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
William Graham AC, Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes
Alun Ffred Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

17 Tachwedd 2015

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

**Etifeddiaeth y Pwyllgor Cyllid – proses y Gyllideb a chraffu ariannol ar ddeddfwriaeth**

Fel rhan o drafodaethau'r Pwyllgor Cyllid ar ei etifeddiaeth, mae'r Pwyllgor yn ystyried y trefniadau ar gyfer craffu ar y gyllideb ac yn edrych ar graffu ariannol ar filiau, gan gynnwys effaith rôl y Pwyllgor.

Fel y gwyddoch, bydd gweithdrefnau cyllidebol yn newid yn ystod y Cynulliad nesaf. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed eich barn am effeithiolrwydd y dull cyffredinol o graffu ar y gyllideb yn y Cynulliad hwn. Mae gan yr Aelodau ddiddordeb mewn clywed pa mor llwyddiannus rydych yn credu y bu eich pwyllgor o ran cyfrannu at y broses, i ba raddau y mae rhanddeiliaid yn ymgysylltu â chraffu ar y gyllideb a pha mor briodol yw'r amserlenni ar gyfer y broses, yn enwedig y rhai a ragnodir mewn Rheolau Sefydlog.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i glywed eich barn am effeithiolrwydd craffu ariannol ar ddeddfwriaeth, gan gynnwys sut y mae eich pwyllgorau chi wedi integreiddio'r gwaith o graffu ariannol wrth ystyried deddfwriaeth a pha mor ddefnyddiol y bu canlyniadau ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid o filiau wrth i'ch pwyllgor chi ymgymryd â'i waith craffu.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb a buaswn yn ddiolchgar am hyn erbyn 8 Ionawr 2016.

Yn gywir

**Jocelyn Davies**

**Cadeirydd**